


# No One Left Out

## Campaign briefing

**No One Left Out is Crisis' campaign to change the law in Wales so that no one is left out of homelessness support because of who they are, where they live or how they became homeless.**

People are forced to leave their homes when the rising pressure from high rents and low incomes becomes too much. Without government support, a sudden increase in pressure, like losing a job, becoming ill, or fleeing an abusive relationship, can quickly push people into homelessness.

It's only right that people who are homeless get the help they need. There's been progress in recent years to improve the law in Wales, but at the moment not everyone is guaranteed support from their council to find a new home. In 2019/20, 3 in 10 people (1,773) who were homeless did not qualify for help to be rehoused.[1]

### Left out because of who you are

If your household contains dependent children, a pregnant woman, a vulnerable adult, a care leaver or a 16-17 year old, you're considered to be in **priority need**, which means the council has a duty to help you. But if you or your household don't fall into this category, you can be left out of support, even if you have nowhere to turn.

### Left out because of where you live

If you are eligible for support and living or have lived in the local area, or if you are working there or are in the area because of family reasons or special circumstances, you may have a **local connection** to the housing authority area. But even if you would otherwise have been eligible for support, if you can't prove **local connection**, and have been living in the area but don't have evidence of it, you can be left out of support – even if you're considered in priority need.

---

[1]This is calculated by multiplying the number of households not in the single person household category by 2 (by subtracting single households from the total number of households). This is then added to the number of single households over the period 2015/16 to 2019/20. The multiplier of 2 is used because households of any larger size are assumed to be families with children and therefore would be eligible for the main duty. It is assumed non-single households not owed the main duty are likely to be couples.

## Left out because of how you became homeless

In law, someone is considered to have **intentionally** caused their homelessness if they satisfy all three conditions of:

1. deliberately doing or failing to do anything which leads them to ceasing to occupy their accommodation
2. accommodation is available for their occupation
3. it would have been reasonable for them to continue to occupy that accommodation.

Even if you're considered priority need and you can prove a local connection to the area, you may be left out of support if the council thinks you have "intentionally" caused your homelessness.

## Why are we campaigning?

We know from speaking to people who are facing or who have experienced homelessness, and from service providers, that the law needs to change. These three tests: **priority need**, **local connection** and **intentionality** – delay the point at which people can access support to help end their homelessness, and in many cases stops their homelessness from being ended completely. Local councils and other service providers have told us they want to provide the help and support people need but are unable to do so because the law requires them to use these tests.

**"They are there, and while they're there you'll never get rid of homelessness, will you? Because you'll be able to turn people away who are homeless, because they don't meet the certain criteria."**
Housing Options Manager

And people facing homelessness lose faith in the system, while their need for support grows.

**"I felt like no one can help me, do you know what I mean? Because I trust, you trust the council because that's the main one. And when they turned round and said they're still not going to help I just felt like despair really. I just couldn't see a way out and big debts were mounting up and everything was so bleak."**
David[2], who was facing homelessness

## What needs to happen?

A full rehousing duty – making sure that people are not left out of support because of priority need, local connection, and intentionality – would mean that nobody facing homelessness is left without the help they need simply because of the way our homelessness system is designed. Changing the law is the first step to ensuring no one in Wales who is facing homelessness is left out of the support they need to secure a home.

## What can I do?

In the run up to the Senedd elections this year, we're calling for political parties in Wales to commit to changing the law and putting in place the local policies and approaches needed to end homelessness. We need your help to ensure that our future decision makers make this a priority.

**Join us by asking your local Welsh Parliament candidates to make it a priority to change homelessness laws so that no one is left homeless and without help. Act now: www.crisis.org.uk/NOLO**

We need as many people as possible to make their voices heard, so please help spread the word on social media.

**Suggested tweet:**

**People are still turned away from housing support because of who they are, where they live or how they became homeless. Email your Welsh Parliament candidates to ask them to support a change to the law in Wales so that no one is left out of support www.crisis.org.uk/NOLO #NoOneLeftOut**

**Find out more**
If you'd like to know more about the campaign, visit **www.crisis.org.uk/NOLO** or email **campaigns@crisis.org.uk**.

[2]Name has been changed to protect their identity

Photography: Max Miechowski
Photography: iStock




# Neb Heb Help

## Crynodeb ymgyrch

**Neb Heb Help yw ymgyrch Crisis i newid y gyfraith yng Nghymru fel nad oes neb yn gorfod gwneud heb help digartrefedd oherwydd pwy ydynt, oherwydd lle maent yn byw nac oherwydd sut aethant yn ddigartref.**

Caiff pobl eu gorfodi i adael eu cartrefi pan mae'r pwysau cynyddol oddi wrth renti uchel ac incwm isel yn mynd yn ormod. Heb help gan y llywodraeth, gall cynnydd sydyn yn y pwysau, fel colli swydd, salwch, neu ffoi oddi wrth gamdriniaeth mewn perthynas, wthio pobl i ddigartrefedd yn gyflym iawn.

Nid yw ond yn iawn i bobl sy'n ddigartref gael yr help y mae arnynt ei angen. Gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf i wella'r gyfraith yng Nghymru, ond ar y foment, nid oes sicrwydd y caiff pawb help gan eu cyngor i ddod o hyd i gartref newydd.

Yn 2019/20, roedd 3 o bob 10 o bobl (1,773) a oedd yn ddigartref nad oeddent yn gymwys i gael help i gael eu hailgartrefu.[1]

### Cael eich gadael allan oherwydd pwy ydych chi

Os oes plant dibynnol, menyw feichiog, oedolyn bregus, rhywun sy'n gadael gofal neu unigolyn 16-17 oed ar eich aelwyd, ystyrir bod gennych **angen blaenoriaethol** sy'n golygu bod gan y cyngor ddyletswydd i'ch helpu. Ond os nad ydych chi neu'ch aelwyd yn syrthio i'r categori hwn, mae'n bosibl na fyddech yn gymwys i gael help, hyd yn oed os nad oes gennych unman i droi.

### Cael eich gadael allan oherwydd lle'r ydych yn byw

Os ydych chi'n gymwys i gael help a'ch bod yn byw neu wedi byw yn lleol, neu os ydych chi'n byw yno neu yn yr ardal am resymau teuluol neu oherwydd amgylchiadau arbennig, mae'n bosibl bod gennych **gysylltiad lleol** ag ardal yr awdurdod tai.

Ond, hyd yn oed pe byddech fel arall wedi bod yn gymwys i gael help, os na allwch brofi **cysylltiad lleol**, a'ch bod wedi bod yn byw yn yr ardal ond nad oes gennych dystiolaeth o hynny, mae'n bosibl na fyddech yn gymwys i gael help – hyd yn oed os ystyrir bod gennych angen blaenoriaethol.

[1] Caiff hwn ei gyfrifo drwy luosi nifer yr aelwydydd nad ydynt yn y categori aelwyd unigolyn sengl â 2 (drwy dynnu aelwydydd sengl o gyfanswm yr aelwydydd). Caiff hwn wedyn ei adio i nifer yr aelwydydd sengl dros y cyfnod 2015/16 i 2019/20. Defnyddir y lluosydd 2 oherwydd y tybir bod aelwydydd o unrhyw faint mwy yn deuluoedd â phlant ac y byddent felly'n gymwys am y brif ddyletswydd. Tybir mai cyplau yw'r aelwydydd nad ydynt yn aelwydydd sengl nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt.

# Crynodeb ymgyrch

## Cael eich gadael allan oherwydd sut aethoch yn ddigartref

Yn gyfreithiol, ystyrir bod rhywun wedi achosi ei sefyllfa o **ddigartrefedd yn fwriadol** os ydynt yn bodloni'r tair amod hon:

1. gwneud rhywbeth yn fwriadol neu fethu â gwneud rhywbeth sy'n arwain at iddynt beidio â meddiannu eu llety

2. os yw'r llety ar gael iddynt ei feddiannu

3. ac y byddai wedi bod yn rhesymol iddynt barhau i feddiannu'r llety hwnnw.

Hyd yn oed os ystyrir bod gennych angen blaenoriaethol a'ch bod yn gallu profi bod gennych gysylltiad lleol â'r ardal, mae'n bosibl na fyddech yn gymwys i gael cymorth os ydych chi wedi achosi eich digartrefedd yn fwriadol.

## Pam ein bod yn ymgyrchu?

Gwyddom, o siarad â phobl sy'n wynebu digartrefedd neu sydd wedi wynebu digartrefedd yn y gorffennol, ac â darparwyr gwasanaethau, fod angen i'r gyfraith newid. Mae'r tri phrawf hwn: **angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol a bwriadoldeb** – yn achosi oedi cyn all pobl gael cymorth i helpu i roi diwedd ar eu digartrefedd, ac mewn llawer o achosion, mae'n eu hatal rhag rhoi diwedd ar eu digartrefedd yn llwyr. Mae cynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau eraill wedi dweud wrthym eu bod eisiau darparu'r help a'r cymorth y mae ar bobl eu hangen ond eu bod yn methu â gwneud hynny oherwydd bod y gyfraith yn mynnu eu bod yn defnyddio'r profion hyn.

**"Maen nhw yno, a tra byddant yno, wnewch chi byth gael gwared ar ddigartrefedd, na wnewch? Oherwydd y byddwch yn gallu troi pobl i ffwrdd sy'n ddigartref, gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf penodol."**
Rheolwr Dewisiadau Tai

Ac mae pobl sy'n wynebu digartrefedd yn colli ffydd yn y system, tra bod eu hangen am help yn cynyddu.

**"Roeddwn i'n teimlo fel pe bai neb yn gallu fy helpu, ydych chi'n deall beth dw i'n ei olygu? Oherwydd rwy'n ymddiried, rydych yn ymddiried yn y cyngor gan mai nhw yw'r prif un. A phan wnaethant droi rownd a dweud nad oeddent yn mynd i fy helpu eto, teimlais yn anobeithiol. Nid oeddwn yn gallu gweld ffordd allan ac roedd dyledion mawr yn cronni ac roedd popeth mor ddigalon."**
David[2], a oedd yn wynebu digartrefedd.

## Beth sydd angen digwydd?

Byddai dyletswydd ailgartrefu lawn – gan sicrhau nad yw pobl yn methu â chael help oherwydd angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol, a bwriadoldeb – yn golygu nad oes neb sy'n wynebu digartrefedd yn cael ei adael heb yr help y mae ei angen dim ond oherwydd y ffordd mae'r system ddigartrefedd wedi cael ei chreu. Newid y gyfraith yw'r cam cyntaf i sicrhau nad oes neb yng Nghymru sy'n wynebu digartrefedd yn cael ei adael heb yr help y mae arno ei angen i gael cartref.

## Beth allaf fi ei wneud?

Yn yr wythnosau cyn etholiadau Senedd Cymru eleni, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i ymrwymo i newid y gyfraith a sefydlu'r dulliau a'r polisïau lleol sy'n angenrheidiol i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae arnom angen eich help chi i sicrhau bod penderfynwyr y dyfodol yn gwneud hyn yn flaenoriaeth. Ymunwch â ni drwy ofyn i'ch ymgeisydd Seneddol lleol i'w wneud yn flaenoriaeth i newid deddfau digartrefedd fel nad oes neb yn cael ei adael yn ddigartref a heb help. Gweithredwch nawr yn **www.crisis.org.uk/NOLO**

Mae arnom angen i gynifer o bobl â phosibl godi eu llais, felly helpwch ni i ledaenu'r gair ar y cyfryngau cymdeithasol.

Awgrym am drydar:

**Mae cymorth tai yn cael ei wrthod i bobl oherwydd pwy ydynt, lle maent yn byw neu sut aethant yn ddigartref. Cysylltwch â ymgeiswyr Senedd Cymru i alt arnynt i gefnogi newid yn y gyfraith yng Nghymru fel nad oes neb yn cael ei adael heb help**
**www.crisis.org.uk/NOLO #NebHebHelp**

**Dysgu rhagor**
Os hoffech wybod rhagor am yr ymgyrch, ewch i **www.crisis.org.uk/NOLO** neu e-bostio **campaigns@crisis.org.uk.**

[2] Newidiwyd ei enw rhag i neb ei adnabod

Photography: Max Miechowski
Photography: iStock

Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
Together we will end homelessness